# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaethau Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL**

Dyddiad ac Amser

**DYDD LLUN, 7FED MEHEFIN, 2021**

***DILYN YMLAEN O'R PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679 878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Gwener, 28 Mai 2021)

# PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL

## AELODAETH (15)

## Plaid Cymru (8)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Steve Collings | Annwen Hughes |
| Dafydd Owen | Edgar Wyn Owen |
| Elfed Williams | Gareth Tudor Morris Jones |
| W. Gareth Roberts | Elin Walker Jones |

## Annibynnol (4)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| John Brynmor Hughes | Eryl Jones-Williams |
| Jason Wayne Parry | Angela Russell |

## Llais Gwynedd (1)

Cynghorydd Gareth Williams

## Annibynnol Unedig Gwynedd (1)

Cynghorydd W Roy Owen

## Aelod Unigol (1)

Sedd Wag

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N

## 1. ETHOL CADEIRYDD

I ethol Cadeirydd ar gyfer 2021 / 22

## 2. ETHOL IS-GADEIRYDD

I ethol Is gadeirydd ar gyfer 2021 / 22

## 3. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

## 5. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 6. COFNODION 4 - 5

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 15 Mawrth 2021 fel rhai cywir

## 7. COFNODION IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL 6 - 11

Cyflwyno, er gwybodaeth, gofnodion o gyfarfod Is bwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar y dyddiad canlynol:

a) 2 Mawrth 2021

**PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL, 15-03-21**

**Presenoldeb:**

**Cynghorwyr:** Steve Collings, Annwen Hughes, Edgar Owen, Elfed Williams, Gareth Morris Jones, Elin W Jones, Eryl Jones-Williams, Angela Russell, Gareth Williams a Roy Owen

**Swyddogion:**

Geraint Brython Edwards (Cyfreithiwr), Gareth Jones (Pennaeth Cynorthwyol – Amgylchedd), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**1. ETHOL CADEIRYDD AR GYFER 2020/21**

**PENDERFYNWYD AIL ETHOL Y CYNGHORYDD ELFED WILLIAMS YN GADEIRYDD AR GYFER 2020/21**

**2. ETHOL IS-GADEIRYDD AR GYFER 2020/21**

**PENDERFYNWYD AIL ETHOL Y CYNGHORYDD ANNWEN HUGHES YN IS-GADEIRYDD AR GYFER 2020/21**

**3. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd John Brynmor Hughes a'r Cynghorydd Dafydd Owen

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**5. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**6. COFNODION CYFARFOD DIWETHAF**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor a gynhaliwyd Rhagfyr 2il 2019 fel rhai cywir

**7. COFNODION IS BWYLLGORAU TRWYDDEDU**

Derbyniwyd, er gwybodaeth gofnodion yr Is bwyllgorau a gynhaliwyd

26-01-2021, 08-12-2020, 22-10-2020, 06-10-2020, 09-07-2020, 09-03-2020
12-02-2020, 18-12-2019 a 21-11-2019

## 8. FFIOEDD ARFAETHEDIG TRWYDDEDAU TACSIS 2021/22

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Trwyddedu yn gofyn i'r Pwyllgor gymeradwyo ffioedd arfaethedig trwyddedau tacsi 2021/22. Atgoffwyd yr Aelodau bod y Pwyllgor hwn, yn ôl yn 2013, wedi penderfynu y byddai ffioedd tacsi yn cael eu hadolygu yn flynyddol a hynny i adennill costau yn llawn. Amlygwyd nad oedd ffioedd Gwynedd wedi newid ers 2019.

Wrth asesu'r sefyllfa ac ystyried sgil effeithiau argyfwng covid 19 ar y diwydiant, awgrymwyd nad oedd cyfiawnhad dros gynyddu'r ffioedd yn sylweddol am y flwyddyn ariannol nesaf, ond i'r Pwyllgor ystyried cynnydd chwyddiant dros y ddwy flynedd diwethaf yn unig ar gyfer pob ffi trwyddedu tacsi. Amcangyfirifwyd y byddai hyn yn gyfystyr a chynnydd o 2.56% ar bob ffi trwydded.

Argymhellwyd i'r Pwyllgor gymeradwyo codi'r ffioedd i'r lefel arfaethedig yn ddarostyngedig i ymgynghoriad gyda'r diwydiant tacsi ac ymgynghoriad drwy rybudd cyhoeddus.

Diolchwyd am yr adroddiad ac hefyd am y gefnogaeth roedd yr Uned Trwyddedu wedi ei roi i'r diwydiant tacsi dros gyfnod yr argyfwng

Cynigiwyd ac eiliwyd i ohirio'r penderfyniad i gynyddu'r ffioedd am flwyddyn gan wneud cais i'r Adran Cyllid ddefnyddio arian ychwanegol mae wedi ei dderbyn gan y Llywodraeth mewn ymateb i effeithiau covid 19.

Cynigiwyd ac eiliwyd gwelliant i godi'r ffioedd gan y byddai angen torri arian o wasanaeth arall i gau'r bwlch.

Materion yn codi o'r drafodaeth ddilynol:

- Cydymdeimlwyd gyda'r diwydiant tacsi, a phob diwydiant arall sydd wedi dioddef yn sgil effaith covid 19
- Bod angen gwarchod ein cymunedau
- O gynyddu'r ffioedd, £8 yw'r codiad mwyaf

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â chymharu'r ffioedd gyda chynghorau eraill ar draws y Gogledd, ymddengys bod ffioedd Gwynedd, yn gyffredinol, yn gorwedd yn 'y canol'.

Ategodd Pennaeth Cynorthwyol - Amgylchedd bod yr egwyddor o adennill costau yn unig wedi ei sefydlu yn 2013 ac os nad yw'r gwasanaeth yn adennill y costau hynny drwy godi ffioedd, yna, byddai rhaid ceisio arian o rywle arall. Adroddwyd nad oedd y ffioedd wedi codi ers 2019 a bod y diwydiant wedi derbyn cefnogaeth drwy ffynhonellau ariannol ychwanegol i fod yn 'saff' dros gyfnod yr argyfwng.

Pleidleiswyd ar y cynnig i godi'r ffioedd

**PENDERFYNWYD GWRTHOD Y CYNNIG I GODI'R FFIOEDD I'R LEFEL A ARGYMHELLWYD**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am a daeth i ben am 10:50am

**IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL 02-03-21**

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Elfed Williams (Cadeirydd), Y Cynghorwyr Angela Russell ac Eryl Jones Williams

**Swyddogion:** Geraint Brython Edwards (Cyfreithiwr), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Dim i'w nodi

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12 ac 13, Rhan 4, Atodiad 12 A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraffau yma yn berthnasol oherwydd bod gan yr unigolion dan sylw'r hawl i breifatrwydd ac nad oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n gofyn am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus o gadw'r wybodaeth yn eithriedig yn gorbwyso'r budd cyhoeddus o'i datgelu.**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Amlygodd y byddai'r penderfyniadau yn cael ei gwneud yn unol â pholisi trwyddedu Cyngor Gwynedd. Nodwyd mai pwrpas y polisi oedd gosod canllawiau ar y meini prawf wrth ystyried cais yr ymgeisydd gyda'r nod o ddiogelu'r cyhoedd drwy sicrhau:

- Bod yr unigolyn yn unigolyn addas a phriodol
- Nad yw'r unigolyn yn fygythiad i'r cyhoedd
- Bod y cyhoedd wedi'u diogelu rhag pobl anonest
- Bod plant a phobl ifanc wedi'u diogelu
- Bod pobl ddiamddiffyn wedi'u diogelu
- Bod y cyhoedd yn gallu bod yn hyderus wrth ddefnyddio cerbydau trwyddedig.

**5. CAIS AM DRWYDDED GYRRU CERBYD HACNI / HURIO PREIFAT – Mr A**

` Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr A am drwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat. Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried y cais yn unol â'r cofnod DBS, y canllawiau ar droseddau a chollfarnau perthnasol. Amlygwyd nad oedd yr ymgeisydd wedi datgan fod ganddo gollfarnau blaenorol ar ei gais ac awgrymwyd iddo ymhelaethu ar hyn. Roedd yr Awdurdod Trwyddedu yn argymell i'r Is-bwyllgor ganiatáu y cais.

Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar ei gais gan roi gwybodaeth am gefndir y collfarnau a'i amgylchiadau personol. Eglurodd bod ganddo gywilydd o'i ymddygiad pan yn

ifanc. Wedi cyfnod yn y carchar eglurodd ei fod yn benderfynol o droi ei fywyd o gwmpas a bu iddo fynd i'r coleg, dilyn gyrfa lwyddiannus a sefydlu busnes.

**PENDERFYNWYD bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol ar gyfer trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat gyda Chyngor Gwynedd.**

Wrth gyrraedd eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y canlynol:

- Gofynion 'Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd'
- ffurflen gais yr ymgeisydd
- adroddiad yr Adran Drwyddedu ynghyd a'r datganiad DBS
- adroddiad yr Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau
- sylwadau ar lafar gan yr ymgeisydd
- Canllawiau'r Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau

Rhoddwyd ystyriaeth benodol i'r materion canlynol

Yn Awst 1994 cafwyd yr ymgeisydd yn euog gan Lys Ieuenctid Bangor ar un cyhuddiad o ymosod gan achosi gwir niwed difrifol (ABH), yn groes i a47 Deddf Troseddau Corfforol 1861. Derbyniodd ryddhad amodol 12 mis, gorchymyn i dalu iawndal o £20.00 a gorchymyn 'bind over'.

Ym Medi 1998 cafwyd yr ymgeisydd yn euog gan Lys Ynadon Bangor ar ddau gyhuddiad. Un am ymosod gan achosi gwir niwed corfforol (ABH) yn groes i a47 o Ddeddf Troseddau Corfforol 1861, ac un o achosi gwir niwed corfforol difrifol (GBH) yn groes i adran 20 o'r un Ddeddf. Derbyniodd 3 mis o garchar, ar gyfer y drosedd GBH a dedfryd 3 mis o garchar dilynol am y drosedd ABH

Ystyriwyd paragraff 2.2 o Bolisi'r Cyngor lle nodi'r nad oes rheidrwydd i berson sydd â chollfarn am drosedd ddifrifol gael ei wahardd rhag cael trwydded, ond bydd disgwyl iddo fod yn rhydd rhag unrhyw gollfarnau am gyfnod priodol fel y nodir yn y Polisi, a dangos tystiolaeth ei fod yn unigolyn addas a phriodol i ddal trwydded. Mae cyfrifoldeb ar yr ymgeisydd i brofi ei fod yn berson addas a phriodol. Mae paragraff 2.4 yn nodi pan fydd ymgeisydd wedi'i gael yn euog o drosedd(au) neu fod mater arall/materion eraill i'w (h)ystyried yng nghyswllt hynny, ni chaiff y cyngor adolygu rhinweddau'r gollfarn honno na'r mater arall hwnnw.

Ystyriwyd paragraff 4.5 sydd yn nodi bod Gorchymyn Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) (Diwygio) 2002 yn caniatáu'r Is-bwyllgor ystyried pob collfarn, p'run ai ydynt wedi eu treulio o dan Ddeddf 1974 neu beidio.

Mae paragraff 6.0 o'r Polisi yn cyfarch troseddau o drais. Ym mharagraff 6.1 nodir, gan fod gyrwyr trwyddedig yn dod i gysylltiad agos gyda'r cyhoedd yn rheolaidd y byddai is-bwyllgor yn mabwysiadu safbwynt cadarn at y rhai hynny sydd â throseddau yn ymwneud a thrais. Mae paragraff 6.4 yn nodi bydd cais am drwydded yn cael ei wrthod os oes gan yr ymgeisydd fater i'w ystyried am niwed corfforol difrifol gyda bwriad sydd yn llai na 10 mlynedd cyn dyddiad y cais. Mae paragraff 6.5 o'r Polisi yn nodi y bydd cais am drwydded fel rheol yn cael ei wrthod os oes gan yr ymgeisydd fater i'w ystyried am ymosodiad sydd yn achosi gwir niwed corfforol sydd yn llai na 3 blynedd cyn dyddiad y cais. Mae paragraff 6.6 o'r Polisi yn nodi y bydd cais, fel arfer yn cael ei wrthod os oes mwy nag un gollfarn am drosedd o natur dreisgar yn erbyn yr ymgeisydd a hynny o fewn y 10 mlynedd ddiwethaf.

Daeth yr Is-bwyllgor i gasgliad fod collfarnau Awst 1994 a Medi 1998 yn droseddau o drais, fodd bynnag, gan fod y collfarnau hyn wedi eu cyflwyno 26 a 22 mlynedd yn ôl (sydd tu hwnt

i’r cyfnod 10 blynedd), nid oedd yr un o’r rhagdybiaethau dros wrthod o dan ran 6 o’r Polisi yn goroesi, ac felly nid yn sail i wrthod y cais

Wedi pwyso a mesur y dystiolaeth ar wybodaeth yn ofalus, roedd yr Is-bwyllgor o blaid caniatáu y cais a phenderfynwyd bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol i ddal trwydded gyrrwr cerbyd hacni a hurio preifat.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai’r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i’r ymgeisydd.

**6. CAIS AM DRWYDDED GYRRU CERBYD HACNI / HURIO PREIFAT – Mr B**

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr B am drwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat. Gofynnwyd i’r Is-bwyllgor ystyried y cais yn unol â’r cofnod DBS, y canllawiau ar droseddau a chollfarnau perthnasol. Roedd yr Awdurdod Trwyddedu yn argymell i’r Is-bwyllgor ganiatáu y cais.

Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar ei gais gan roi gwybodaeth am gefndir y collfarnau a’i amgylchiadau personol. Eglurodd bod collfarnau 2001 i gyd o ganlyniad i beidio derbyn cyngor proffesiynol i geisio arbed asedau busnes ei deulu. Rhoddodd eglurhad llawn o’r sefyllfa ynghyd a gwybodaeth am y troseddau traffig. Nododd ei fod yn gweithio gyda phobl gydag anableddau dysgu a’i fwriad oedd cynnig gwasanaeth cludiant iddynt gan geisio cymhwyster priodol i wneud hynny

**PENDERFYNWYD bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol ar gyfer trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat gyda Chyngor Gwynedd.**

Wrth gyrraedd eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y canlynol:

- Gofynion ‘Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd’
- ffurflen gais yr ymgeisydd
- adroddiad yr Adran Drwyddedu ynghyd a’r datganiad DBS
- adroddiad yr Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau
- sylwadau ar lafar gan yr ymgeisydd
- Canllawiau'r Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau

Rhoddwyd ystyriaeth benodol i’r materion canlynol

Yn 1988 cafodd yr ymgeisydd ei wahardd rhag gyrru am 28 diwrnod yn dilyn digwyddiad o yrru 107mya ar drafffordd yr M6.

Yn Mai 2001 cafwyd yr ymgeisydd yn euog gan Lys y Goron yr Wyddgrug ar gyfres o 10 cyhuddiad. Un cyhuddiad o fod yn fethdalwr yn cymryd rhan mewn neu yn ymwneud â hyrwyddo neu reoli cwmni yn groes i a11 o’r Ddeddf Anghymwyso Cyfarwyddwyr Cwmni 1986. Dau gyhuddiad o fod yn rhan o neu barhau â busnes gyda’r bwriad o dwyllo credydwyr yn groes i a458 o’r un Ddeddf. Saith cyhuddiad o gael gafael ar eiddo drwy dwyll yn groes i a15 o’r Ddeddf Dwyn 1968. Derbyniodd 2 flynedd o garchar ar un o’r cyhuddiadau o gael gafael ar eiddo drwy dwyll ynghyd a dedfrydau o garchar yn cyd-redeg ar y cyhuddiadau eraill.Yn ogystal cafodd ei wahardd am 5 mlynedd rhag bod yn gyfarwyddwr ar gwmni.

Yn Medi 2015 derbyniodd SP30 am oryrru, (57mya mewn ardal 50mya ar hyd ffordd ddeuol yr A55) – derbyniodd 3 pwynt cosb ar ei drwydded yrru.

Ystyriwyd paragraff 2.2 o Bolisi’r Cyngor lle nodi’r nad oes rheidrwydd i berson sydd â chollfarn am drosedd ddifrifol gael ei wahardd rhag cael trwydded, ond bydd disgwyl iddo fod

yn rhydd rhag unrhyw gollfarnau am gyfnod priodol fel y nodir yn y Polisi, a dangos tystiolaeth ei fod yn unigolyn addas a phriodol i ddal trwydded. Mae cyfrifoldeb ar yr ymgeisydd i brofi ei fod yn berson addas a phriodol. Mae paragraff 2.4 yn nodi pan fydd ymgeisydd wedi'i gael yn euog o drosedd(au) neu fod mater arall/materion eraill i'w (h)ystyried yng nghyswllt hynny, ni chaiff y cyngor adolygu rhinweddau'r gollfarn honno na'r mater arall hwnnw.

Ystyriwyd paragraff 4.5 sydd yn nodi bod Gorchymyn Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) (Diwygio) 2002 yn caniatáu'r Is-bwyllgor ystyried pob collfarn, p'run ai ydynt wedi eu treulio o dan Ddeddf 1974 neu beidio.

Ystyriwyd paragraff 8.0 o'r Polisi sydd yn cyfarch troseddau o anonestrwydd gyda pharagraff 8.1 yn nodi y cymerir golwg ddifrifol ar unrhyw gollfarn sy'n ymwneud ag anonestrwydd. Mae paragraff 8.2 yn nodi bydd cais fel arfer yn cael ei wrthod os bydd gan yr ymgeisydd gollfarn am drosedd a restrir, a bod y gollfarn yn llai na 3 blynedd cyn dyddiad y cais. Nodwyd bod y rhestr troseddau yn cynnwys, ymhlith eraill, twyllo, cael eiddo drwy dwyll a lladrata.

Mae rhan 12 o'r Polisi yn ymwneud â chollfarnau moduro gyda pharagraff 12.2 yn rhestru troseddau traffig difrifol at ddibenion y Polisi. Mae rhan 13 yn ymwneud a mân droseddau traffig ac yn cyfeirio yn bennaf at droseddau sydd heb eu rhestru ym mharagraff 12.2 o'r Polisi. Nodir ym mharagraff 13.3 y gallai mwy nag un gollfarn am fân drosedd traffig neu fater arall i'w ystyried arwain at wrthod cais, yn enwedig os oes sawl collfarn neu faterion eraill i'w hystyried ar gyfer yr un drosedd, e.e. goryrru

Daeth yr Is-bwyllgor i gasgliad bod y digwyddiad 1988 yn cyfrif fel mater i'w ystyried am fân drosedd traffig, sef goryrru.

Daeth yr Is-bwyllgor i'r casgliad bod collfarn 2001 yn ymwneud â throseddau o anonestrwydd. fodd bynnag, gan fod y collfarnau hyn wedi eu cyflwyno 19 mlynedd yn ôl (sydd tu hwnt i'r cyfnod 3 blynedd), nid oedd rhan 8 o'r Polisi yn goroesi, ac felly nid yn sail i wrthod y cais

Daethpwyd i'r casgliad bod digwyddiad 2015 yn ymwneud â mater i'w ystyried am fân drosedd traffig. Gyda'i gilydd, gallai digwyddiadau goryrru 1988 a 2015 fod yn sail dros wrthod y cais. Fodd bynnag, argymhelliad y Polisi ym mharagraff 13.3 yw y gallai fod yn sail dros wrthod, yn hytrach na datgan y dylid gwrthod. Ystyriwyd bod cyfnod o 26 mlynedd rhwng y ddau ddigwyddiad, bod digwyddiad 1988 wedi digwydd ar draffordd a bod digwyddiad 2015 o yrru 7mya yn uwch na'r cyfyngiad o 50mya ar ffordd ddeuol.  Roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon na ddylai'r digwyddiadau hyn fod yn sail gwrthod chwaith.

Wedi pwyso a mesur y dystiolaeth ar wybodaeth yn ofalus, roedd yr Is-bwyllgor o blaid caniatáu y cais a phenderfynwyd bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol i ddal trwydded gyrrwr cerbyd hacni a hurio preifat.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i'r ymgeisydd.

## 7. CAIS AM DRWYDDED GYRRU CERBYD HACNI / HURIO PREIFAT – Mr C

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr C am drwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat. Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried y cais yn unol â'r cofnod DBS, y canllawiau ar droseddau a chollfarnau perthnasol. Amlygwyd nad oedd yr ymgeisydd wedi datgan fod collfarn flaenorol ar ei gais ac awgrymwyd iddo ymhelaethu ar hyn. Roedd yr Awdurdod Trwyddedu yn argymell i'r Is-bwyllgor ganiatáu y cais.

Gwahoddwyd cynrychiolydd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar gais yr ymgeisydd gan roi gwybodaeth am gefndir y gollfarn a'i amgylchiadau personol. Eglurwyd bod yr ymgeisydd wedi datgan y gollfarn flaenorol ar lafar, ond heb ei chynnwys ar y ffurflen gais (cadarnhaodd y swyddog trwyddedu bod hyn yn gywir).

**PENDERFYNWYD bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol ar gyfer trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat gyda Chyngor Gwynedd.**

Wrth gyrraedd eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y canlynol:

- Gofynion 'Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd'
- ffurflen gais yr ymgeisydd
- adroddiad yr Adran Drwyddedu ynghyd a'r datganiad DBS
- sylwadau ar lafar gan gynrychiolydd yr ymgeisydd
- Canllawiau'r Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau

Rhoddwyd ystyriaeth benodol i'r materion canlynol

Yn Ionawr 2016 cafwyd yr ymgeisydd yn euog gan Lys Ynadon Môn o achosi digwyddiad peryglus ar / dros ffordd yn groes i a22 Ddeddf Traffig y Ffyrdd 1988. Derbyniodd ddirwy o £155.00, gorchymyn i dalu costau o £85 a chostau ychwanegol o £20.

Ystyriwyd paragraff 2.2 o Bolisi'r Cyngor lle nodi'r nad oes rheidrwydd i berson sydd â chollfarn am drosedd ddifrifol gael ei wahardd rhag cael trwydded, ond bydd disgwyl iddo fod yn rhydd rhag unrhyw gollfarnau am gyfnod priodol fel y nodir yn y Polisi, a dangos tystiolaeth ei fod yn unigolyn addas a phriodol i ddal trwydded. Mae cyfrifoldeb ar yr ymgeisydd i brofi ei fod yn berson addas a phriodol. Mae paragraff 2.4 yn nodi pan fydd ymgeisydd wedi'i gael yn euog o drosedd(au) neu fod mater arall/materion eraill i'w (h)ystyried yng nghyswllt hynny, ni chaiff y cyngor adolygu rhinweddau'r gollfarn honno na'r mater arall hwnnw.

Ystyriwyd paragraff 4.5 sydd yn nodi bod Gorchymyn Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) (Diwygio) 2002 yn caniatáu'r Is-bwyllgor ystyried pob collfarn, p'run ai ydynt wedi eu treulio o dan Ddeddf 1974 neu beidio

Mae rhan 12 o'r Polisi yn ymwneud â chollfarnau moduro gyda pharagraff 12.2 yn rhestru troseddau traffig difrifol at ddibenion y Polisi. Mae rhan 13 yn ymwneud a mân droseddau traffig ac yn cyfeirio yn bennaf at droseddau sydd heb eu rhestru ym mharagraff 12.2 o'r Polisi gyda pharagraff 13.1 yn diffinio 'mân drosedd traffig' fel trosedd sydd yn derbyn rhwng 1 a 3 pwynt cosb. Ystyriwyd paragraff 13.2 sydd yn nodi pan fydd ymgeisydd gydag un gollfarn am fân drosedd gyrru ni fydd hyn fel arfer yn arwain at wrthod y cais.

Daeth yr Is-bwyllgor i gasgliad bod y digwyddiad 2016 yn cyfrif fel mater i'w ystyried fel mân drosedd traffig. Ni fydd collfarn sengl am fân drosedd traffig fel arfer yn arwain at wrthod cais ac felly nid oedd yr Is-bwyllgor yn gweld unrhyw reswm dros gyfiawnhau gwyro oddi ar y safbwynt yma.

Wedi pwyso a mesur y dystiolaeth ar wybodaeth yn ofalus, roedd yr Is-bwyllgor o blaid caniatáu y cais a phenderfynwyd bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol i ddal trwydded gyrrwr cerbyd hacni a hurio preifat.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i'r ymgeisydd.

Dechreuodd y cyfarfod am 10:00am a daeth i ben am 11:45am